



CYNLLUN YR IAITH GYMRAEG

Paratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Cymraeg 1993

Mae Coleg Powys wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd Coleg Powys yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

1.) **RHAGARWEINIAD**

Safle'r Coleg a'r Cyd-destun

- Ardal wledig yn bennaf
- Amaethyddiaeth a Thwristiaeth yw'r prif ddiwydiannau. Pcedi o ddiwydiannau cynhyrchu mewn rhai ardaloedd.
- Sgiliau Isel
- Rhagdybi'r bod 13% o'r boblogaeth ag anghenion Sgiliau Sylfaenol. 6% sy'n manteisio ar y cyfle i wella sgiliau 13% ond 6% yn dim ond.
- Nid yw merched yn cael eu cynrychioli'n llawn yn y gweithle
- Mewnfudiad yn uwch na'r cyfartaledd . Yn ogystal mai tua 25% o bobl ifanc rhwng 15-24 oed yn gadael y sir i fyw a gweithio.
- Coleg Powys yn parhau i fod yn un o'r deg cyflogwr mwyaf yn y sir.

1.2 **Ystadegau Iaith**

- 18% o'r boblogaeth sydd dros 16eg oed gyda sgiliau Cymraeg ar lefel sy'n dderbyniol i amcanion cyfrifiad 1991.
- Cynnydd yn y niferoedd sy'n astudio'r iaith ar lefel ysgol uwchradd er na allai hyn arwain at gynnydd sylweddol yn y defnydd ohoni.
- Mae gan ysgolion uwchradd gyfrifoldebau penodol dros ddarparu addysg uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 16 oed.
- Dewis cwricwlwm cyfrwng Cymraeg yn fychan.
- Disgyblion yn ennill cymhwyster ar lefel iaith gyntaf neu ail iaith mewn TGAU.
- Cymwysterau ffurfiol yn arwain at gynnydd yn nifer y bobl ifanc sydd a'r gallu sy'n ofynnol i astudi ymhellach drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dosbarthiad yn dangos yn amlwg fod rhai pcedi efo gallu da iawn yn y Gymraeg e.e. Ystradgynlais, a rhai gydag ychydig iawn o allu e.e. Crucywel.
- Cymerir gallu ieithyddol i ystyriaeth wrth gynllunio blaenoriaethau ar gyfer datblygu gwasanaethau mewn lleoliadau cymunedol.
- Yr arolwg Sgiliau I'r Dyfodol ar gyfer Canolbarth Cymru yn dangos bod sgiliau yn yr iaith Gymraeg yn isel iawn ar restr flaenoriaethau cyflogwyr o'u hanghenion. Astudiaethau eraill yn awgrymu bod tua 33% o gyflogwyr yn cydnabod eu bod angen staff gyda sgiliau yn yr iaith Gymraeg.

1.3 Dadansoddi sgiliau staff a myfyrwyr

- Arolwg o sgiliau staff yn dangos bod gan rai aelodau o staff rai sgiliau yn y Gymraeg ond dim ond canran fechan sy'n rhugl yn y Gymraeg. Mae'r mwyafrif o'r staff heb sgiliau yn y Gymraeg.
- Nifer fechan o Gymry rhugl ymhlith y myfyrwyr ond mae canran helaeth o'r myfyrwyr yn meddu ar gymhwyster TGAU (amrywiol raddau).

1.3 Y ddarpariaeth iaith Gymraeg sydd yn y Coleg ar hyn o bryd

- Ni ddysgir cwrs cyflawn trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Dysgir rhai modiwlau'n ddwyieithog yn yr Ysgol Teithio a Thwristiaeth.
- Nodir meysydd cwricwlaidd eraill ar gyfer darpariaeth Gymraeg/ddwyieithog.
- Mae Cymraeg yn gyfrwng dysgu yn Ystradgynlais

2.) CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETHAU'R COLEG

Polisiau a Mentrau Newydd

- Wrth i bolisiau gael eu hadolygu byddwn yn asesu'r canlyniadau ieithyddol yn ôl fframwaith iaith a fydd yn:-
 - a) hwyluso'r defnydd o'r iaith a ddewisir gan gleient y gwasanaeth
 - b) Symud tuag at gyflawni'r egwyddor cyfartaledd rhwng dwy iaith swyddogol Cymru.
 - c) Sicrhau cysondeb gyda Chynllun Iaith Gymraeg y Coleg .
- Bydd yr holl bolisiau, trefnau a mentrau newydd yn cael eu hasesu yn ôl y fframwaith a amlinellir uchod.

Cynllunio a Rheoli

- Mae gan y Coleg gylch cynllunio mewnol sy'n arwain at gynhyrchu cynllun strategol tair blynedd. Mae'r holl Feysydd Rhaglen yn cyfrannu tuag at y cynllun ac mae

Cydlynwyr y Meysydd Rhaglen yn gyfrifol am gynhyrchu'r cynigion datblygu hyn yn ôl fframwaith safonol.

- Bydd gan bob Maes Rhaglen gynllun gweithredu i ddatblygu eu darpariaeth dwyieithog.

Darparu

- Nod y Cynllun hwn yw trin dwy iaith swyddogol Cymru'n gyfartal a thrwy hynny gynyddu mynediad i wasanaeth dwyieithog yn y Coleg.
- Fel rhan o'r gweithdrefnau anwytho ffurfiol, bydd y Coleg yn cynnwys elfen ar ymwybyddiaeth iaith.
- Bydd tiwtorialau ar gael yn ddwyieithog lle bynnag y bo aelod llawn-amser o staff gyda'r lefelau sgil gofynnol.
- Bydd y Coleg yn cynnal cronfa ddata o staff rhan amser posibl sydd gyda'r galluoedd priodol.
- Bydd llyfrgell y Coleg yn cadw catalogau o adnoddau argraffedig ac electronig sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg i gefnogi gwasanaethau addysg a hyfforddiant y Coleg. Bydd defnyddiau yn cael eu cyfieithu yn ôl yr angen.
- Wrth ddewis y rhaglen gefnogaeth i bob myfyriwr, bydd y Coleg yn ystyried eu dewis iaith.
- Bydd y Coleg yn ychwanegu'r Iaith Gymraeg i'r rhestr o feini prawf i'w hystyried wrth baru myfyrwyr gyda lleoliadau profiad gwaith.
- Bydd y Coleg yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i sicrhau bod myfyrwyr yn cael gwybod am fuddiannau sgiliau dwyieithog yn y gweithle.

Cydweithio a Phartneriaeth

- Mae'r Coleg yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid CCET, sy'n cynnwys ysgolion, darparwyr hyfforddiant a sefydliadau sector gwirfoddol er mwyn sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal.

2.5 Hyrwyddo a Chyhoeddusrwydd

- Bydd argaeledd gwasanaeth dwyieithog yn cael ei nodi yn y prospectws, llawlyfr y myfyrwyr ac mewn manau gwytodaeth eraill.
- Bydd aelod o staff yn cael ei enwi ar bob safle fel rhywun y gall myfyriwr fynd ato/ati am gymorth a chefnogaeth gyda materion iaith.

3.) DELIO GYDA'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

3.1 Gohebiaeth ysgrifenedig

- 3.1.1 Bydd y Coleg yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.
- 3.1.2 Bydd yn gohebu gydag unigolion yn newis iaith y gohebydd allanol.
- 3.1.3 Bydd y Coleg yn gweithredu'r un safonau o ran amser ymateb i ohebiaeth Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd.
- 3.1.4 Bydd unrhyw ohebiaeth oddi wrth y Coleg yn dilyn sgwrs ffôn, yn iaith y sgwrs honno a gafwyd dros y ffôn.
- 3.1.5 Bydd cylchlythyrau a llythyrau safonol i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

3.2 Cyfathrebu dros y ffôn

- 3.2.1 Bydd y Coleg yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.
- 3.2.2 Bydd teleffonyddion ar bob safle yn cael eu recriwtio neu eu hyfforddi i lefel sy'n eu galluogi i ateb galwadau allanol gyda chyfarfodiad dwyieithog, ac i drosglwyddo'r alwad i estyniad priodol.
- 3.2.3 Bydd pobl sy'n ffonio ac yn dymuno siarad yn Gymraeg yn cael eu trosglwyddo i swyddog sy'n gallu siarad Cymraeg ond na fydd, o angenrheidrwydd, gyda'r arbenigedd i ymdrin â phwnc y sgwrs. Os bydd angen, bydd raid i'r swyddog Coleg hwnnw drefnu i arbenigwr priodol gyda'r sgiliau iaith angenrheidiol ddychwelyd yr alwad honno.
- 3.2.4 Bydd negeseuon ar beiriannau ateb neu negeseuon llafar (voice-mail) cyswllt cyntaf y Coleg yn ddwyieithog.

3.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus

- 3.3.1 Yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Coleg, bydd cyfraniadau yn cael eu croesawu yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
- 3.3.2 Bydd hysbysiadau, gwahoddiadau a phapurau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd cyhoeddus fel hyn yn cynnwys gwahoddiad i'r rhai hynny sy'n bwriadu dod i roi gwybod ymlaen llaw i'r Coleg os ydynt yn dymuno siarad Cymraeg.
- 3.3.3 O'r ymatebion a geir, bydd y Coleg yn asesu ymlaen llaw'r angen am wasanaeth cyfieithu ar y pryd a fydd yn cael ei gomisiynu oddi wrth asiantaeth allanol os bydd angen. Hefyd, bydd yr asesiad yn cael ei ddefnyddio i bennu a yw'n briodol sicrhau bod staff sy'n gallu siarad Cymraeg ar y dderbynfa.
- 3.3.4 Os yw un sy'n cymryd rhan yn dymuno siarad Cymraeg, ac yntau/hithau heb roi gwybod i'r Coleg ymlaen llaw, bydd rhywun sy'n gallu siarad Cymraeg yn cael ei gomisiynu ar fyr rybudd, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, i ddarparu cyfieithiad dilynol.

3.4 Cyfarfodydd eraill

- 3.4.1 Bydd gwahoddiadau sy'n cael eu hanfon at aelodau o'r cyhoedd i ddod i gyfarfod wyneb yn wyneb gyda chynrychiolwyr o'r Coleg yn eu gwahodd i roi gwybod i'r

Coleg ymlaen llaw os ydynt yn dymuno cynnal y cyfan neu ran o'r cyfarfod hwnnw yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys gwahoddiadau i ddod am gyfweiliad am le yn y Coleg neu drafodaethau ynglyn â chynnydd myfyriwr.

- 3.4.2 O'r ymatebion a geir, a sgiliau iaith Gymraeg cynrychiolydd y Coleg a fydd yn y cyfarfod, byddwn yn asesu'r angen am bresenoldeb cyfieithydd.
- 3.4.3 Mae pob Maes Rhaglen yn y Coleg wrthi'n datblygu ei arbenigedd a'i allu i gynnal tiwtorialau a chyfweiliadau yn Gymraeg (2.3.5 uchod). O ganlyniad i hyn, mae yma sail i bob Maes Rhaglen gael aelodau o staff sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n gallu cynnal cyfarfodydd nad ydynt yn rhai cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg os oes angen.

3.5 Cysylltiadau eraill gyda'r cyhoedd

- 3.5.1 Gan fod y Coleg yn rhyngweithio mwy a mwy gyda'r cyhoedd ac asiantaethau eraill ar ffurf electronig, bydd y Coleg yn parhau ystyried dewis iaith y rhai eraill sy'n cymryd rhan. Dyma ddwy enghraifft ddiweddar:
- 3.5.2 Byddwn yn ymateb i negeseuon e-bost, os oes rhai, yn yr iaith y cafwyd y neges honno.
- 3.5.3 Bydd cyfarfodydd a gynhelir drwy ddulliau fideo-gynadledda hefyd yn cael eu trin fel cyfarfodydd cyhoeddus neu gyfarfodydd eraill yn unol â 3.3 a 3.4 uchod.

4.) WYNEB CYHOEDDUS Y COLEG

4.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

- 4.1.1 Bydd wyneb cyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol y Coleg yn gwbl ddwyieithog.
- 4.1.2 Bydd enw a logo'r Coleg yn Gymraeg yn unig ond bydd ei benawdau llythyrau, tudalennau ffacs, slipiau cyfarchion a defnyddiau corfforaethol eraill yn ddwyieithog.
- 4.1.3 Bydd y Coleg yn datblygu gwefan ddwyieithog.

4.2 Arwyddion

- 4.2.1 Bydd y Coleg yn defnyddio arwyddion heb eiriau lle bynnag y bydd hynny'n bosibl yn unol â safonau rhyngwladol.
- 4.2.2 Bydd yr holl arwyddion sy'n cynnwys geiriau ac sy'n cael eu codi gan y Coleg neu ar ei ran yn ddwyieithog.
- 4.2.3 Lle bynnag y bydd hynny'n bosibl, bydd y geiriau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd ar un arwydd a byddant ar ffurf ac o faint cyfartal.
- 4.2.4 Pan fydd rhaid defnyddio arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran maint, ffurf, eglurdeb, siâp ac amlygrwydd.

4.3 Cyhoeddi ac argraffu defnyddiau sydd wedi eu bwriadu ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru

- 4.3.1 Bydd gohebiaeth a chyhoeddiadau cyffredinol swyddogol sydd wedi eu bwriadu ar gyfer y cyhoedd cyffredinol yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, fel arfer mewn un ddogfen.
- 4.3.2 Pan fydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân, byddant yn cael eu rhyddhau ar yr un pryd, eu dosbarthu gyda'i gilydd ac yr un mor hawdd i'w cael. Os bydd angen talu am ddogfen, yna bydd pris y ddau fersiwn yr un fath.

4.4 Ffurflenni a defnyddiau eglurhaol cysylltiedig

- 4.4.1 Bydd ffurflenni a defnyddiau eglurhaol sy'n gysylltiedig â hwy yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog, fel arfer mewn un ddogfen.
- 4.4.2 Pan fydd ffurflenni yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg, bydd pob un yn cynnwys datganiad sy'n dweud fod y ffurflen ar gael yn yr iaith arall.
- 4.4.3 Pan fydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân, byddant yn cael eu rhyddhau ar yr un pryd, eu dosbarthu gyda'i gilydd ac yr un mor hawdd i'w cael.

4.5 Hysbysiadau yn y wasg

- 4.5.1 Bydd datganiadau i'r wasg yn cael eu hanfon allan yn newis iaith y rhai sy'n eu derbyn. Bydd datganiadau i'r wasg sy'n cael eu hanfon i'r holl ysgolion, Colegau a sefydliadau addysgol yn ddwyieithog, waeth beth fo'r pwnc. Bydd datganiadau i'r wasg ar wefan y Coleg hefyd yn ddwyieithog. Bydd datganiadau i'r wasg Gymraeg yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig. Bydd datganiadau i'r wasg Saesneg yn Saesneg.

4.6 Hysbysebu a gweithgareddau cyhoeddusrwydd

- 4.6.1 Bydd pob dull o hysbysebu yng Nghymru a ddefnyddir gan y Coleg yn ddwyieithog. Mae hyn yn berthnasol i hysbysebion am fyfyrwyr, staff a gwasanaethau eraill y Coleg.
- 4.6.2 Bydd pob dull a ddefnyddir i roi cyhoeddusrwydd i'r Coleg, sy'n cynnwys arddangosfeydd, ymgyrchoedd marchnata ac arolygon cyhoeddus, a fydd yn ymddangos yng Nghymru yn unig, yn ddwyieithog.
- 4.6.3 Bydd hysbysebion a chyhoeddusrwydd yn y cyfryngau sy'n cylchredeg drwy'r Deyrnas Gyfunol e.e. Times Educational Supplement, Sunday Times, yn Saesneg yn unig. Bydd hysbysebion yn y cyfryngau Cymraeg yn Gymraeg yn unig.
- 4.6.4 Pan fydd aelodau o'r cyhoedd yn ymateb i hysbyseb ddwyieithog ac yn gofyn am ragor o wybodaeth, bydd hon yn cael ei darparu naill ai'n ddwyieithog neu yn yr iaith y gwnaethpwyd y cais.

4.7 Hysbysiadau Swyddogol

- 4.7.1 Bydd hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus sy'n ymddangos yng Nghymru yn arddangos y fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd, yn gyfartal o ran maint, fformat, eglurdeb ac amlygrwydd.

5.) GWEITHREDU A MONITRO

5.1 Strategaeth adnoddau dynol

- 5.1.1 Mae'r Coleg yn ymrwymedig i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sydd gyda'r sgiliau priodol i ddarparu gwasanaethau'r Coleg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 5.1.2 Bydd y Coleg yn dynodi'r manau gwaith hynny sydd mewn cysylltiad gyda'r cyhoedd yng Nghymru; a thrwy recriwtio, datblygu staff neu drefniant priodol arall, sicrhau y gellir cynnig gwasanaeth llawn yn newis iaith yr aelod o'r cyhoedd.
- 5.1.3 O'r dadansoddiad yn 5.1.2, bydd yn bosibl canfod y lefel medrusrwydd sy'n ofynnol neu'n ddymunol i gyflawni hyn fel rhan o strategaeth adnoddau dynol cyffredinol y Coleg.
- 5.1.4 Er mwyn gweithredu'r strategaeth yn ymarferol cyn gynted â phosibl, bydd pob achos yn cael ei ystyried yng nghyd-destun ac ydyw'n briodol newid dyletswyddau staff, recriwtio staff ychwanegol neu ddatblygu staff ymhellach.
- 5.1.5 Bydd y strategaeth adnoddau dynol yn dynodi'r blaenoriaethau o ran gweithredu, ac yn canfod goblygiadau'r rhain i'r gyllideb. Bydd hefyd yn cynnwys systemau monitro a gwerthuso sy'n darparu gwybodaeth ar lefel Bwrdd y Coleg.

5.2 Datblygu staff

- 5.2.1 Bydd y Coleg yn parhau gyda'i raglen o ddsbarthiadau iaith Gymraeg i staff. Darperir y rhain yn rhad ac am ddim i'r staff dysgu a'r staff cefnogol, a chaiff staff eu hannog i fynd i'r dosbarthiadau hyn gan eu rheolwyr llinell.
- 5.2.2 Am fod y Coleg yn ymestyn dros wahanol safleoedd, nid yw'n bosibl darparu rhaglenni hyfforddi pwrpasol ar gyfer y gwahanol swyddi er y bydd y Coleg yn darparu cymaint ag sy'n bosibl o gefnogaeth sy'n berthnasol i wahanol rolau yn y rhaglenni cyffredinol.
- 5.2.3 Bydd y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ci gynnwys yn rhaglen gyflwyno i staff y Coleg.
- 5.2.4 Bydd tiwtor iaith Gymraeg yn cael ei gomisiynu i ddarparu cefnogaeth ymgynghorol i staff sydd ag ymholiadau unigol.
- 5.2.5 Bydd cyllideb yn cael ei phennu bob blwyddyn ar gyfer rhaglen i ddatblygu a chefnogi staff Cymraeg.

5.3 Recriwtio

- 5.3.1 Bydd hysbysebion a manylion personél ar gyfer yr holl swyddi lle caiff Cymraeg ei ystyried yn hanfodol neu'n ddymunol yn nodi hynny'n glir.
- 5.3.2 Bydd y strategaeth adnoddau dynol yn cyfeirio'n benodol at y polisi dwyieithrwydd a bod croeso i bobl sy'n siarad Cymraeg a Saesneg ar staff y Coleg. Bydd y llawlyfr i staff hefyd yn nodi hynny'n glir.
- 5.3.3 Os bydd rhaid penodi rhywun nad yw'n gallu siarad Cymraeg i swydd lle mae Cymraeg yn hanfodol, un o amodau'r penodiad fydd dysgu Cymraeg i safon a bennir o fewn cyfnod penodol o amser. Bydd cefnogaeth yn cael ei roi i ddeiliad y swydd i gyflawni'r nod hwn, yn ogystal â monitro ffurfiannol a chyfansymiol.

5.4 Hyfforddiant galwedigaethol

- 5.4.1 Bydd y Coleg yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol i'w staff drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 5.4.2 Yn y pynciau hynny lle darperir hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg i'r cyhoedd, bydd y staff hefyd yn gallu manteisio ar y ddarpariaeth hon.

5.5 Trefniadau gweinyddol

- 5.5.1 Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn wedi cael ei baratoi gan dîm rheoli'r Coleg, mewn ymgynghoriad gydag eraill drwy'r sefydliad, ac wedi ei gymeradwyo gan Fwrdd Llywodraethwyr y Coleg.
- 5.5.2 Y Pennaeth yw'r uwch swyddog a fydd yn gyfrifol am gydlynu'r Cynllun, ond bydd cyfrifoldebau ac awdurdod yn cael eu dirprwyo i reolwyr academaidd a rheolwyr staff cefnogol i weithredu'r agweddau hynny sy'n berthnasol i'w meysydd gwaith hwy.
- 5.5.3 Bydd polisiâu a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun yn cael eu paratoi a'u cynnwys yn y llawlyfr i staff, ar fewnrwyd y staff ac mewn lleoliadau eraill fel sy'n briodol. Drwy wneud hyn, bydd y Cynllun yn cael ei integreiddio oddi mewn i weithdrefnau arferol y Coleg.
- 5.5.4 Bydd gofynion y Cynllun yn cael eu hystyried fel rhan o unrhyw fanylion ar gyfer prynu systemau a meddalwedd cyfrifiadurol.
- 5.5.5 Bydd safon y gwasanaethau cyfieithu sy'n cael eu prynu gan y Coleg yn cael ei monitro a'i gwerthuso yn ôl safonau diffiniedig.
- 5.5.6 Bydd gweithrediad y Cynllun hwn yn un o'r gweithdrefnau a fydd yn cael eu monitro'n rheolaidd gan y tîm rheoli sy'n cynnwys uwch reolwyr a rheolwyr canol o bob rhan o rannau daearyddol a swyddogaethol y Coleg. Bydd Swyddog Personél y Coleg yn monitro ac yn rhoi gwybod am unrhyw gynnydd mewn perthynas â thargedau recriwtio a datblygu staff.

5.6 Darparwyr trydydd parti

- 5.6.1 Mae'r Coleg yn defnyddio darparwyr trydydd parti i ddarparu gwasanaethau addysg a hyfforddiant mewn gwahanol rannau o'r gymuned. Caiff hyn ei wneud ar ffurf

cytundebau contract ffurfiol. Byddant yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys gofyniad i ddarparu gwasanaethau sy'n cyd-fynd a gofynion y Cynllun hwn.

- 5.6.2 Bydd yr holl gytundebau ar gyfer defnyddio gwasanaethau trydydd parti neu wasanaethau sy'n cael eu rhoi allan i gontract, gan gynnwys cyhoeddusrwydd a marchnata, hefyd yn cynnwys gofyniad i gydymffurfio gyda'r Cynllun. Bydd staff sy'n trafod cytundebau o'r math yma yn ymwybodol o'r polisi drwy'r prosesau a nodir yn mharagraff 5.5.3.
- 5.6.3 Bydd y Coleg yn monitro i sicrhau bod contractwr yn gweithredu yn unol â'r gofynion hyn.

5.7 Adolygu a Monitro

- 5.7.1 Bydd y Coleg yn monitro gweithrediad y Cynllun ac yn mesur yn rheolaidd i ba raddau y mae'n cwrdd â'r amcanion. Mae gan y Coleg fframwaith sicrhau ansawdd a chynllunio cynhwysfawr sy'n cael ei ddefnyddio i fonitro a gwerthuso holl bolisiau'r Coleg. Bydd y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei gynnwys yn ffurfiol fel rhan o'r fframwaith hwn.
- 5.7.2 Yr elfennau sydd angen eu monitro yw'r rhai hynny sydd wedi eu cynnwys ym mhun colofn gyntaf y cynllun gweithredu sydd yn Atodiad 3 y ddogfen hon. Ni chredir y byddai'n ymarferol pennu targedau rhifol dechreuol i bob dangosydd perfformiad yn y cynllun gweithredu, ond efallai y byddai'n briodol datblygu'r rhain fel rhan o'r broses adolygiad blynyddol.
- 5.7.3 Bydd y broses adolygiad blynyddol yn cynnwys cyfarfod grwp ffocws ar bob un o'r prif safleoedd. Bydd cwestiynau yn cael eu holi yn yr arolygon "rheolaidd" a fydd yn cael eu cynnal ynglyn â pha mor fodlon yw'r myfyrwyr mewn perthynas â gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg.
- 5.7.4 Y Pennaeth yw'r swyddog sy'n gyfrifol am fonitro a gwerthuso'r Cynllun yn gyffredinol.
- 5.7.5 Ar adeg paratoi'r Cynllun hwn, nid yw'r Coleg yn darparu digon o wasanaethau Cymraeg i ddirprwyo cyfrifoldebau gweithredu, monitro nac adolygu i staff ar lefelau ar wahân i'r tîm rheoli. Felly, bydd y tîm rheoli yn cynnwys y Cynllun hwn yn eu cyfrifoldebau tîm. Bydd gweithgor traws-safle yn cael ei sefydlu ac yn cael ei gadeirio gan y Pennaeth.
- 5.7.6 Mae gweithdrefn gwyno'r Coleg wedi ei llunio i ymdrin â phob math o gwynion. Bydd unrhyw gwynion ynglyn â gweithrediad y Cynllun hwn yn defnyddio'r weithdrefn safonol hon.
- 5.7.7 Mae'r Coleg yn croesawu awgrymiadau ynglyn â sut i wella'r gwasanaethau a ddarperir ganddo yn Gymraeg. Gellir gwneud awgrymiadau i unrhyw aelod o staff neu drwy ddull arall, a byddant yn cael eu cyflwyno i'r Pennaeth i'w hystyried gan y tîm rheoli (gweler 5.7.3)
- 5.7.8 Yn ystod y drydedd flwyddyn o weithredu'r Cynllun hwn, bydd y Coleg yn adolygu ac yn diwygio'r Cynllun ac yn cynhyrchu dogfen ddiwygiedig. Hefyd, bydd y Coleg yn cynhyrchu adroddiad gwerthuso a fydd yn dadansoddi ei berfformiad o ran mynd

ati i weithredu'r Cynllun yn ystod y tair blynedd gyntaf. Bydd yr adroddiad gwerthuso yn cynnwys:

- Arolwg a dadansoddiad thematig neu berfformiad a chydymffurfiad gyda'r Cynllun dros y tair blynedd o ran ansawdd y gwasanaeth Cymraeg a rheoli'r Cynllun.
- Amlinelliad o nodau, amcanion a thargedau pellach y Coleg ar gyfer y tair blynedd gydag amserlen weithredu ddiwygiedig. Hefyd, bydd yr adroddiad yn amlinellu'r rhesymau dros unrhyw ddiwygiadau, ychwanegiadau neu ddileadau i'w cynnwys yn y Cynllun diwygiedig.

5.8 Cyhoeddi gwybodaeth a chyhoeddusrwydd

- 5.8.1 Bydd adolygiad blynyddol o'r cynllun yn cael ei gynhyrchu a'i gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg bob blwyddyn wedi iddo gael ei ystyried gan reolwyr a llywodraethwyr y Coleg.
- 5.8.2 Bydd adroddiad yr adolygiad yn cynnwys gwybodaeth ar gydymffurfiad a pherfformiad yn erbyn y targedau sydd wedi eu cynnwys yn 5.7.2 uchod. Bydd hyn yn ffurf ar werthuso gan y bydd yn egluro unrhyw danberfformiad ac yn dynodi camau gweithredu i ymdrin â'r rhain, lle bo'n briodol.
- 5.8.3 Bydd yr adroddiad yn galluogi'r Coleg i gyflawni'r amcanion canlynol:
- Mesur cydymffurfiad efo'r Cynllun
 - Mesur ansawdd y gwasanaeth Cymraeg
 - Mesur effeithiolrwydd gweithdrefnau rheoli'r Cynllun
 - Mesur digonolrwydd sgiliau ieithyddol y Coleg drwy gymharu adnoddau ac angen presennol
 - Mesur y dyraniad adnoddau cyffredinol i weithrediad a datblygiad y Cynllun
 - Dadansoddi perfformiad ar draws y safleoedd a'r meysydd rhaglen er mwyn sicrhau cysondeb.
 - Canfod gwendidau allweddol gyda chynllun gweithredu wedi ei gostio, amserlen a dadansoddiad risg.
- 5.8.4 Bydd y Cynllun yn atodiad i gynllun sefydliadol y Coleg.
- 5.8.5 Bydd copïau o'r Cynllun a'r adroddiadau adolygiad blynyddol ar gael ar wefan y Coleg i'r holl lywodraethwyr, staff ac aelodau o'r cyhoedd sydd eu hangen. Bydd hyn yn cael ei dynnu i sylw'r holl gyfranogion.
- 5.8.6 Bydd bodolaeth y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei gyhoeddi ym mhrospectws y Coleg, ar y wefan a bydd yn cael ei gynnwys ym mhob diwrnod agored a digwyddiadau tebyg.

5.9 Amserlen

- 5.9.1 Mae'r amserlen ar gyfer camau gweithredu allweddol wedi ei chynnwys yn y cynllun gweithredu (Atodiad 3).

5.9.2 Mae'r goblygiadau o ran adnoddau sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun gweithredu (Atodiad 3) yn darparu syniad yn unig ac nid ydynt yn ymrwymadau gorfodol gan y Coleg oherwydd gallai fod yn bosibl cyflawni rhai o'r amcanion drwy ddulliau eraill.